5. ADRODDIAD PELLACH AR YSGOLION FFEDERAL GAN: GARETH DAVIES JONES, CYN AROLYGYDD EI MAWRHYDI AC YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL

5.1. Yr Ysgol Ffederal

5.1.1 Mae'r ddogfennaeth a baratowyd eisoes gan Gyngor Gwynedd ar ad-drefnu addysg gynradd yn y Sir yn cydnabod bod llawer o rinweddau yn perthyn i ysgolion bach a'u bod yn cynnig llawer y gellid ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, codwyd amheuon sylweddol ynglyn â chynaladwyedd y sefyllfa bresennol i'r dyfodol. Ymddengys bod cytundeb nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ac nad yw gwneud dim yn opsiwn rhesymegol. Wrth ailystyried y gyfundrefn gynradd bresennol, y nod fyddai gwneud y defnydd gorau o adnoddau, cryfhau addysg wledig a gosod ysgolion bach, sydd o dan fygythiad cyson, ar sail gadarnach. Golyga hyn fod angen sefydlu strwythur a fyddai'n datblygu cryfderau ond hefyd yn goresgyn y pryderon a ganlyn:

- Pwysau gwaith gweinyddol sylweddol a chynyddol ar benaethiaid sydd hefyd ag ymrwymiadau dysgu;
- Problemau recriwtio i swyddi penaethiaid;
- Diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a datblygiad gyrfa athrawon;
- Pwysau gwaith ar athrawon yn sgil cyfrifoldeb arweiniol am nifer o bynciau, ynghyd â'r angen i ddarparu ystod o brofiadau cymdeithasol i'r disgyblion;
- Athrawon unigol yn ysgwyddo ystod eang iawn o gyfrifoldebau am gynllunio'r cwricwlwm;
- Diffyg hyblygrwydd cyllidol a fyddai'n galluogi'r ysgolion i ymateb i'r datblygiadau pellach sydd ar y gorwel.

5.1.2 Yr her i Wynedd yw datblygu modelau sy'n gwarchod cryfderau'r ysgolion llai ac yn cynnal presenoldeb ysgolion yn y cymunedau tra, ar yr un pryd, yn ateb y pryderon a nodwyd. Un o'r modelau sy'n cynnig ei hun ar gyfer cyflawni hyn yw model yr Ysgol Ffederal.

5.1.3 O ran strwythur rheolaethol, mae ysgol ffederal yn un ysgol ac iddi un pennaeth, un corff llywodraethol ac un gyllideb. Caiff ei chreu drwy uno nifer o ysgolion llai ond, drwy gadw'r safleoedd gwreiddiol, parheir i ddarparu addysg o fewn y cymunedau hynny. Un o nodweddion ysgol ffederal yw'r ffaith na fydd y 'pennaeth arweiniol' yn gyson bresennol ar un safle. Yn sgil hyn, bydd angen penodi 'pennaeth safle' i ddelio â'r materion rheolaethol dydd i ddydd a gyfyd ymhob safle. Bydd hyn yn rhyddhau'r pennaeth arweiniol i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau arweiniol sydd ynghlwm â phrifathrawiaeth ysgol. Bydd yr union ddyletswyddau a gyflawnir gan y pennaeth safle yn fater i'r pennaeth arweiniol a'r corff llywodraethol, gan gymryd i ystyriaeth y bydd y pennaeth safle yn gyfrifol am ddosbarth o blant yn ogystal.

5.1.4 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael o ysgolion sy'n cydweithio'n ffurfiol dan drefniant ffederal yn awgrymu'r canlynol.

5.2. Materion Arweinyddol a Rheolaethol

5.2.1 Elfen greiddiol o lwyddiant ysgol ffederal yw'r ffaith nad yw'r pennaeth yn gyfrifol am addysgu dosbarth. Nid yw hyn yn gyfystyr a dweud na fydd y pennaeth mewn cyswllt â phlant. Yr her yw trefnu'r cyswllt hwnnw mewn modd fydd yn caniatáu i'r pennaeth ganolbwyntio ar agweddau arweinyddol. Hynny yw, disgwylir i'r pennaeth gyflawni un swydd ar sawl campws yn hytrach na dwy neu dair swydd ar yr un campws. Mae hyn yn arwain at safon uwch o arweinyddiaeth strategol ac yn rhyddhau amser i'r pennaeth fynd i'r afael â'r agenda ehangach, megis cydweithio gydag ystod helaethach o asiantaethau, neu gynllunio materion allweddol ar lefel rhanbarth.

5.2.2 Mae trefniant o'r fath yn cynnig cyfle i sefydlu 'Tîm Rheoli' ar lefel ysgol gynradd a fyddai'n gallu rhannu'r cyfrifoldeb o arwain y sefydliad. Mae nifer o fanteision yn deillio o'r math hwn o drefniant:

- datblygiad proffesiynol i bob aelod o'r tîm;
- rhannu cyfrifoldebau yn ôl arbenigedd unigolion;
- cryfhau gallu'r ysgol i ymdopi ag anawsterau megis, absenoldeb tymor hir neu secondiad unrhyw aelod o'r staff.

5.2.3 Yn ychwanegol at hyn, mae trefniant ffederal yn cynnig cyfleoedd i athrawon gael y profiad o weithredu ar lefel rheolaethol (h.y. fel rheolwr safle) heb orfod ysgwyddo holl gyfrifoldebau swydd pennaeth. Rhagwelir y bydd profiad o'r fath yn ysgogi rhai unigolion i ddilyn cyrsiau paratoi ar gyfer prifathrawiaeth. Bydd hyn, yn ei dro yn Cynyddu nifer yr ymgeiswyr addas ar gyfer swydd penaethiaid yn y sir.

5.3. Manteision i'r athrawon

5.3.1 Un o wendidau ysgolion bach yw bod disgwyl i dîm bychan o athrawon ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb o arwain, datblygu, arfarnu ac asesu holl feysydd y cwricwlwm. Mae trefniant ffederal yn galluogi athrawon weithredu fel rhan o dîm ehangach, gan gynnig cyfle i athrawon unigol weithredu fel cydlynwyr pwnc a thrwy hynny ddatblygu arbenigedd yn y pynciau hynny. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod trefniant o'r fath yn arwain at wella ansawdd cynllunio penodol. Mae hefyd yn fodd i leihau baich gwaith athrawon unigol.

5.4 Manteision i ddisgyblion

5.4.1 Mae dwyn ysgolion bach ynghyd o dan drefn ffederal yn rhoi cyfle i ddisgyblion gydweithio gyda disgyblion ar safleoedd eraill ar brosiectau penodol. Rhydd hyn gyfle hefyd i ddisgyblion gyfarfod â chyfoedion - datblygiad pwysig mewn ysgolion sydd ag un disgybl yn unig mewn grŵp oedran a'r diffyg cystadleuaeth a symbyliad all ddeillio o hynny. Byddai trefniadau o'r fath yn benderfyniad i bennaeth a llywodraethwyr yr ysgol ffederal mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mewn ysgolion ffederal sy'n bodoli eisoes, deuir â disgyblion ynghyd i gael profiadau, megis chwaraeon a chyfleon i berfformio, sy'n fwy buddiol ac ymarferol gyda grwpiau mwy o faint. Mewn trefniant o'r fath, ni fyddai gofynion teithio i'r plant llawer yn wahanol i'r hyn sydd yn digwydd yn gyfredol. Manteisir hefyd ar adnoddau, megis cae chwarae neu neuadd, nad ydynt ar gael ar bob safle, i drefnu cyngherddau neu glybiau ol-ysgol.

5.5 Manteision i'r gymuned

5.5.1 Un o fanteision y gyfundrefn ffederal yw'r cyfle i ddiogelu presenoldeb ysgol mewn nifer o gymunedau lle y byddai'n anodd, os nad yn amhosib, cynnal ysgolion unigol. Mae dwyn ysgolion llai at ei gilydd mewn trefniant a'r fath yn cynnig safon gryfach o ddiogelwch iddynt wrth wynebu her y dyfodol. Yn ogystal, byddai'r cydweithio a'r cyd-drefnu rhwng yr amrywiol safleoedd ysgol yn ysgogi cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau cyfagos, gan eu cryfhau a hybu gweithgarwch cymunedol gwledig yn ddiwylliannol ac ieithyddol. Onid yw blaengynllunio yn y modd hwn yn llawer gwell na gorfod ymateb yn adweithiol ac ar fyrder i sefyllfaoedd argyfyngus wrth i niferoedd disgyblion barhau i ddisgyn o flwyddyn i flwyddyn yn yr ysgolion. "Crisis management" fyddai hynny, ac nid yw "Crisis management" byth yn effeithiol.

5.6. Materion llywodraethol

5.6.1 Un o'r ofnau sydd wedi codi yn sgil sefydlu ysgolion ffederal yw'r perygl y bydd ardaloedd penodol o ddalgylch ysgol yn colli eu dylanwad ar gorff llywodraethol yr ysgol newydd. Mae modd cwrdd â'r ofnau hyn wrth gynllunio at y dyfodol, gan ddefnyddio rheoliadau a chyfansoddiad ysgol i sicrhau cynrychiolaeth deg a chytbwys o'r gwahanol 'ardaloedd'. Yn ogystal, byddai modd gosod cymal yng nghyfansoddiad ysgolion ffederal yn nodi'r angen i lywodraethwyr gynnal trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd cyn gwneud penderfyniad i gau unrhyw safle i'r dyfodol. Byddai hyn yn gwarchod sefyllfa safleoedd unigol o fewn ysgol ffederal ac yn ymrwymiad i gynnal cymunedau cefn gwlad y sir.

5.7. Rôl pennaeth i'r dyfodol

5.7.1 Un o brif anawsterau ysgolion bach yw bod disgwyl i benaethiaid gyfuno holl gyfrifoldebau athro dosbarth gyda holl gyfrifoldebau swydd pennaeth ysgol. Ni fu hyn erioed yn hawdd ac mae'r gofynion wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, trefn sy'n sicr o barhau i'r dyfodol. Mae gwir berygl felly i sefyllfa gynyddol anodd dod yn amhosibl. Noda Cylchlythyr 14/2006, yn dwyn y teitl 'Safonau Cenedlaethol i Benaethiaid yng Nghymru', bod arweinwyr ysgol yn holl bwysig wrth wireddu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru'r dyfodol. Aiff ymlaen i ddatgan yn glir bod gan benaethiaid rôl hanfodol i'w chwarae mewn llunio dyfodol dysgu yng Nghymru, a datblygu cymunedau yn ddiwylliannol, yn ieithyddol ac yn economaidd i'r dyfodol. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu'r chwe maes allweddol a ganlyn wrth ddisgrifio rôl pennaeth ysgol.

Creu Cyfeiriad Strategol

- Gweithredu bwriadus i wireddu gweledigaeth fydd yn arwain at welliant parhaus ac yn anelu at ragoriaeth.

Arwain ar Ddysgu ac Addysgu

- Sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial yn academaidd ac yn gymdeithasol.
- Sicrhau bod safon dysgu'r disgyblion ac addysgu'r athrawon yn uchel ym mhob dosbarth ac yn hybu cynhwysiad cymdeithasol.
- Sicrhau bod y profiadau a gyflwynir i bob disgybl yn eang, yn gytbwys ac yn hybu datblygiad sgiliau sylfaenol.

Rheoli'r Ysgol

- Sicrhau bod y dyletswyddau proffesiynol a'r amodau gwaith a amlinellir yn y ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a gofynion statudol eraill, gan gynnwys rhai'r pennaeth, yn cael eu cyflawni.
- Cynhyrchu a gweithredu cynlluniau gwella a pholisïau eglur ar gyfer datblygu'r ysgol, gan hefyd fonitro effaith y cyfryw ar ddatblygiad yr ysgol.
- Creu, ailfodelu a chynnal strwythurau a systemau trefniadol sy'n rhannu arweinyddiaeth ac yn galluogi'r ysgol i gael ei rhedeg yn effeithiol ac effeithlon o ddydd i ddydd.
- Sicrhau trefn hunan arfarnu effeithiol sydd yn amlygu arferion da ynghyd ag agweddau sydd angen eu gwella.
- Rheoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion addysgu yr ysgol.
- Rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch.

Sicrhau Atebolrwydd

- Sicrhau bod atebolrwydd aelodau staff unigol wedi ei ddiffinio'n glir.
- Cydweithio gyda'r corff llywodraethu fel ei fod yn medru cwrdd â'i gyfrifoldebau i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a gwella safonau cyrhaeddiad.
- Cyflwyno cyfrif dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i wahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr.

Datblygu a Gweithio gydag Eraill

- Creu a chynnal hinsawdd gadarnhaol yn yr ysgol sydd yn hybu datblygiad proffesiynol staff.
- Gweithio fel timau gan feithrin potensial staff i ddatblygu fel arweinwyr.
- Creu cysylltiadau ymarferol gyda sefydliadau addysgol eraill i greu cymunedau dysgu effeithiol.
- Sicrhau bod y gwaith a wneir gan dimau ac unigolion yn cael ei gynllunio, ei ddyrannu, ei gefnogi a'i werthuso'n effeithiol gan sicrhau bod tasgau'n cael eu dirprwyo a bod cyfrifoldebau'n cael eu datganoli'n glir.
- Datblygu a chynnal hinsawdd o ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain ac eraill a chymryd camau priodol pan fydd perfformiad yn anfoddhaol.

Cryfhau'r Ffocws Cymunedol

- Sefydlu a chreu partneriaethau gydag ysgolion eraill ar faterion megis datblygiad staff a gwella'r ysgol, a rhannu arferion gorau gydag ysgolion eraill.
- Sicrhau bod yr ysgol yn chware rôl ganolog a chynhyrchiol fel aelod o'i chymuned leol.
- Cydweithredu gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau lles deallusol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol, corfforol a diwylliannol, disgyblion a'u teuluoedd.
- Creu a chynnal partneriaeth effeithiol â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr i gefnogi a gwella cyrhaeddiad a datblygiad personol disgyblion.

5.7.2 Mae'r disgwyliadau uchod yn sylweddol ac yn un o'r rhesymau pam fod nifer ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

5.7.3 Mae'n bosibl bod y mwyafrif o'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawn i wahanol raddau o effeithiolrwydd yn y mwyafrif o ysgolion bach. Yr agweddau sydd angen sylw pellach, yn enwedig yn yr ysgolion llai, yw'r rhai sydd ynghlwm â 'Datblygu a Gweithio gydag Eraill' a 'Cryfhau'r Ffocws Cymunedol'. Mae'r agweddau hyn yn hawlio cyfraniad ychwanegol gan Bennaeth a hynny yn ystod amser ysgol e.e. cydweithio gydag asiantaethau allanol, rôl yr ysgol fel darparwr ar gyfer y gymuned a chyfarfodydd i drafod achosion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

5.7.4 Rhagwelir y bydd y disgwyliad i ysgolion gyfrannu at agenda adfywio cymunedol yn cynyddu i'r dyfodol. Dengys tystiolaeth bod ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol i ddiwallu anghenion ei disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach, yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd ac ymroddiad disgyblion, a thrwy hynny ar eu cyrhaeddiad. Yn ogystal, mae ysgolion sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned gan ddwyn rhieni ac unigolion eraill i mewn i weithgareddau 'addysgol' eu natur, yn aml yn cyfrannu at adfywio cymunedol trwy wella cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden neu ddiwylliannol eu natur o fewn y gymuned leol.

5.7.5 Rhaid perthnasu hyn oll i'r saith nod craidd a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad yng nghyd-destun Cynllunio ar gyfer Plant sef, sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd, yn cyflawni eu potensial, yn mwynhau'r iechyd gorau, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae, hamdden a chwaraeon, yn cael clust i wrando arnynt, yn cael cartrefi diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol ac yn rhydd o anfantais oherwydd tlodi ariannol.

5.7.6 Yn her i ysgolion yn y dyfodol fydd defnyddio'r gymuned i gyfoethogi dysgu'r disgyblion ac i gynllunio'n ofalus fel bod yr ysgolion yn hyrwyddo datblygiad y gymuned er mwyn sylweddoli'r saith nod craidd a restrwyd uchod.

5.7.7 Mae'r cysyniad o ysgolion yn canolbwyntio ar anghenion y gymuned yn allweddol er mwyn gwireddu'r nodau uchod ac yn golygu ymrwymiad ychwanegol gan benaethiaid. Mae sefydlu haen o benaethiaid cynradd digyswllt fydd â'r amser i fynd i'r afael â'r agenda uchelgeisiol hon yn allweddol at y dyfodol.

5.7.8 Pa drefn bynnag a fabwysiedir, mae rhai amodau yn greiddiol i lwyddiant; ymrwymiad pawb, parodrwydd i dderbyn dulliau newydd o weithredu, cynllunio manwl a chyfathrebu agored.

GARETH DAVIES JONES,
CYN AROLYGYDD EI MAWRHYDI AC YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL